

Cymdeithas  
Amaethyddol  
Frenhinol  
Cymru

Royal  
Welsh  
Agricultural  
Society



---

# Polisi Iaith Gymraeg

Mawrth 2014

## Welsh Language Policy

March 2014

## Cynnwys

1	Cyflwyniad .....	4	4.7 Negeseuon wedi eu recordio a Chyhoeddiadau Sain		
2	Delwedd Gyhoeddus .....	5	4.8 Pecynnu		
	2.1 Arwyddion parhaol		4.9 Prasio, Derbynebau a Thocynnau		
	2.2 Arwyddion dros dro				
	2.3 Enw Corfforaethol	5	Cyfathrebu .....	7	
	2.4 Papur Pennawd		5.1 Olrhain Dewis Iaith		
	2.5 Cardiau Busnes		5.2 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb		
3	Gwefan a Gwasanaethau Digidol .....	5	5.3 Cyfathrebu dros y Ffôn		
	3.1 Gwefan		5.4 Gohebiaeth (Papur ac Electronig)		
	3.2 Gwasanaethau Digidol		5.5 Ffurflenni a Dogfennau Cyfrif		
	3.3 Cyfryngau Cymdeithasol				
	3.3 Social Media		6	Staff a'r Gweithle.....	8
4	Hysbysebu a Marchnata .....	6	6.1 Asesu Anghenion Sgiliau Iaith wrth Recriwtio		
	4.1 Hysbysebu trwy ddarlledu		6.2 Cofnodi a Datblygu Sgiliau Iaith ein Staff		
	4.2 Hysbysebu yn y Wasg Gymreig		6.3 Cyfathrebu Mewnol		
	4.3 Hysbysebu Recriwtio		6.4 Cyhoeddiadau Mewnol		
	4.4 Hysbysebu Awyr Agored (Byrddau Arddangos a Cherbydau)		6.5 Meddalwedd yn Gymraeg		
	4.5 Cyhoeddiadau Print		6.6 Arweiniad		
	4.6 Deunydd Arddangos a Marchnata		6.7 Ymwybyddiaeth		
			6.8 Adolygu		
			7	Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan .....	9

## Ymwadiad

Darparwyd y Templed Polisi Iaith Gymraeg hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am arolygu safon ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dylid cyfeirio pob ymholiad am weithrediad y polisi at **Aled Rhys Jones, Prif Weithredwr**.

## Contents

1	Introduction.....	4	5	Communication.....	7
2	Public Image.....	5	5.1	Tracking Language Choice	
	2.1 Permanent Signs		5.2	Face to Face Communication	
	2.2 Temporary Signs		5.3	Telephone Communication	
	2.3 Corporate Name		5.4	Correspondence (Paper and Electronic)	
	2.4 Stationery		5.5	Forms and Account documents	
	2.5 Business Cards		6	Staff and the Workplace.....	8
3	Website and Digital Services.....	5	6.1	Assessing Language Skills Requirements when Recruiting	
	3.1 Website		6.2	Recording and Developing our Staff's Language Skills	
	3.2 Digital Services		6.3	Internal Communication	
	3.3 Social Media		6.4	Internal Publications	
4	Advertising and Marketing.....	6	6.5	Welsh language software	
	4.1 Broadcast Advertising		6.6	Leadership	
	4.2 Advertising in the Welsh Press		6.7	Awareness	
	4.3 Recruitment Advertising		6.8	Review	
	4.4 Outdoor Advertising (Billboards and Vehicles)		7	Services delivered on our behalf.....	9
	4.5 Printed Publications				
	4.6 Exhibition and Marketing Materials				
	4.7 Pre-recorded Messages and Audio Announcements				
	4.8 Packaging				
	4.9 Pricing, Receipts and Ticketing				

## Disclaimer

This Welsh Language Policy Template is provided by the Welsh Language Commissioner. However, the Welsh Language Commissioner is not responsible for monitoring the standard of our Welsh medium provision. Any enquiries regarding the implementation of this policy should be directed to **Aled Rhys Jones, Chief Executive**.

1 Cyflwyniad	1 Introduction
<p>Rydym yn cydnabod fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Rydym yn credu ei bod yn arfer busnes dda i gynnig gwasanaethau yn newis iaith ein cwsmeriaid. Rydym hefyd yn credu ei fod yn dangos parch tuag at ein gweithlu i annog a hwyluso eu dewis iaith yn y gweithle.</p>	<p>We acknowledge the fact that under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Welsh language has official status, and should be treated no less favourably than the English language.</p> <p>We believe that it is good business practise to provide services in the language of choice of our customers. We also believe that it shows respect to our workforce to encourage and facilitate the use of their chosen language in the workplace.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn datgan ein hymrwymadau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg a hefyd, lle'n briodol, yn gosod targedau i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.</p>	<p>We will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh and also, where appropriate, sets targets to help us develop our use of Welsh.</p>
<p>Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymadau yn y polisi hwn mewn ffordd resymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sydd wedi eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yr ydym yn medru eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.</p>	<p>The scope of our commitments in this policy should be interpreted reasonably - they are limited to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales, and also limited to activities and services which we are able to control or influence.</p>
<p><b>Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:</b></p> <p><b>Aled Rhys Jones Prif Weithredwr</b>  Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru  Maes Sioe Frenhinol Cymru  Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3SY  Ffôn: 01982 553 563  E-bost: pachiefexec@rwas.co.uk</p>	<p><b>Please direct any comments or complaints about this policy to:</b></p> <p><b>Aled Rhys Jones Chief Executive</b>  Royal Welsh Agricultural Society  Royal Welsh Showground  Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3SY  Phone: 01982 553 563  E-mail: pachiefexec@rwas.co.uk</p>
<p><b>Dyddiad y polisi hwn:</b> 31/01/2014</p>	<p><b>This policy is dated:</b> 31/01/2014</p>

2 Delwedd Gyhoeddus		✓	2 Public Image	
<b>2.1 Arwyddion parhaol</b>			<b>2.1 Permanent Signs</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob arwydd parhaol yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our permanent signs are fully bilingual</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn sicrhau bod pob arwydd parhaol newydd yn gwbl ddwyieithog erbyn 01/03/2014</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will ensure that all new permanent signs are fully bilingual by 01/03/2014</li> </ul>	
<b>2.2 Arwyddion dros dro</b>			<b>2.2 Temporary Signs</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob arwydd dros dro yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our temporary signs are fully bilingual</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn sicrhau bod pob arwydd dros dro newydd ar ôl 01/03/2014 yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will ensure that all new temporary signs after 01/03/2014 are fully bilingual</li> </ul>	
<b>2.3 Enw Corfforaethol</b>			<b>2.3 Corporate Name</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein brand corfforaethol yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Our corporate brand is fully bilingual</li> </ul>	
<b>2.4 Papur Pennawd</b>			<b>2.4 Stationery</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein papur pennawd yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Our stationery is fully bilingual</li> </ul>	
<b>2.5 Cardiau Busnes</b>			<b>2.5 Business Cards</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob cerdyn busnes yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our business cards are fully bilingual</li> </ul>	
3 Gwefan a Gwasanaethau Digidol			3 Website and Digital Services	
<b>3.1 Gwefan</b>			<b>3.1 Website</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein gwefan yn ddwyieithog</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Our website is bilingual</li> </ul>	
<b>3.2 Gwasanaethau Digidol</b>			<b>3.2 Digital Services</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ydym yn cynnig gwasanaethau digidol ar hyn o bryd</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We currently do not offer digital services</li> </ul>	
<b>3.3 Cyfryngau Cymdeithasol</b>			<b>3.3 Social Media</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol oll yn ddwyieithog lle mae yn ymarferol bosib</li> </ul>		✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our social media services are bilingual where practically feasible</li> </ul>	

4 Hysbysebu a Marchnata		4 Advertising and Marketing	
<b>4.1 Hysbysebu trwy ddarlledu</b>		<b>4.1 Broadcast Advertising</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein hysbysebion darlledu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig ar S4C a radio cyfrwng Cymraeg</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>When we advertise on S4C or Welsh medium radio, our broadcast advertising is bilingual or in Welsh only.</li> </ul>	
<b>4.2 Hysbysebu yn y Wasg Gymreig</b>		<b>4.2 Advertising in the Welsh Press</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gyffredinol, mae ein hysbysebion yn uniaith Saesneg yn y wasg Gymreig</li> <li>Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth hysbysebu mewn cyhoeddiadau Gymreig, erbyn 01/03/2014</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Generally, our advertising is in English only in the Welsh press</li> <li>We will use more Welsh in our advertising in Welsh publications by 01/03/2014</li> </ul>	
<b>4.3 Hysbysebu Recriwtio</b>		<b>4.3 Recruitment Advertising</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein hysbysebion recriwtio yn ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our recruitment advertising is bilingual</li> </ul>	
<b>4.4 Hysbysebu Awyr Agored (Byrddau Arddangos a Cherbydau)</b>		<b>4.4 Outdoor Advertising (Billboards and Vehicles)</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob hysbyseb awyr agored yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our outdoor advertisements are fully bilingual</li> </ul>	
<b>4.5 Cyhoeddiadau Print</b>		<b>4.5 Printed Publications</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae elfen sylweddol o'n cyhoeddiadau print (Cylchgrawn) yn ddwyieithog</li> <li>Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau print erbyn 01/03/2015</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>A significant element of our printed publications (Journal) is bilingual</li> <li>We will use more Welsh in our printed publications by 01/03/2015</li> </ul>	
<b>4.6 Deunydd Arddangos a Marchnata</b>		<b>4.6 Exhibition and Marketing Materials</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob deunydd arddangos a marchnata yn ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our exhibition and marketing materials are bilingual</li> </ul>	
<b>4.7 Negeseuon wedi eu recordio a Chyhoeddiadau Sain</b>		<b>4.7 Pre-recorded Messages and Audio Announcements</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pob neges wedi ei recordio yn gwbl ddwyieithog</li> <li>Rydym yn annog staff / Stiwardiaid sy'n medru siarad Cymraeg i wneud cyhoeddiadau sain yn ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>All our pre-recorded audio messages are fully bilingual</li> <li>We encourage staff / Stewards who can speak Welsh to make bilingual audio announcements</li> </ul>	
<b>4.8 Pecynnu</b>		<b>4.8 Packaging</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ein pecynnu yn Saesneg yn unig</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Our packaging is in English only</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg ar ein pecynnu pan fyddwn yn archebu cyflenwad newydd</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We will use more Welsh on our packaging when new stock is reordered</li> </ul>
<b>4.9 Prasio, Derbynebau a Thocynnau</b>		<b>4.9 Pricing, Receipts and Ticketing</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ein prisiau, derbynebau a thocynnau yn gwbl ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• All our pricing, receipts and ticketing are fully bilingual</li> </ul>
<b>5 Cyfathrebu</b>		<b>5 Communication</b>
<b>5.1 Olrhain Dewis Iaith</b>		<b>5.1 Tracking Language Choice</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid ydym yn cofnodi nac yn olrhain dewis iaith ein cysylltiadau busnes ar hyn o bryd</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We currently do not record or track the language choice of any business contacts</li> </ul>
<b>5.2 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb</b>		<b>5.2 Face to Face Communication</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Er mwyn helpu ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg mor aml â phosibl â'n staff, byddwn yn sicrhau bod gennym o leiaf un aelod o staff sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg ar gael ym mhob gweithle lle bydd cyswllt â'r cyhoedd</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• In order to ensure that our customers can communicate with our staff in Welsh as often as possible, we will ensure that we have at least one member of staff able to speak some Welsh in any workplace where there is contact with the public</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn <i>Cymraeg</i> pan fyddant wrth eu gwaith</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We encourage staff able to speak Welsh to wear a <i>Cymraeg</i> badge when they are at work</li> </ul>
<b>5.3 Cyfathrebu dros y Ffôn</b>		<b>5.3 Telephone Communication</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob aelod o staff yn gallu adnabod a derbyn galwad yn Gymraeg gyda chwarteisi</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Every member of staff is able to recognise and handle a Welsh language call with courtesy</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob aelod o staff yn gallu trosglwyddo ymholiad at rywun sy'n gallu siarad Cymraeg</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Every member of staff is able to transfer an enquiry to a colleague who is able to speak Welsh</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau ffôn dwyieithog i sicrhau fod pob aelod o staff yn gallu delio â, neu gyfeirio galwadau cyfrwng Cymraeg mewn modd proffesiynol, priodol a chwrtais erbyn 01/03/2014</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We will develop our bilingual telephone services to ensure that all staff are able to handle, or refer, Welsh medium calls in a professional, appropriate and courteous manner by 01/03/2014</li> </ul>
<b>5.4 Gohebiaeth (Papur ac Electronig)</b>		<b>5.4 Correspondence (Paper and Electronic)</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gyffredinol, rydym yn ysgrifennu at bobl yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We generally write to people bilingually or in their preferred language</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>• We accept correspondence in Welsh or English</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn cydnabod rhyddid ein cwsmeriaid i ohebu yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn unol â'u dewis iaith lle bo hynny'n ymarferol bosibl</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We acknowledge our customers' freedom to correspond with us in Welsh and we will respond in their preferred language wherever it is practically possible</li> </ul>
<b>5.5 Ffurflenni a Dogfennau Cyfrif</b>		<b>5.5 Forms and Account documents</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhan fwyaf o'n ffurflenni a dogfennau cyfrif yn ddwyieithog neu yn newis iaith y derbynnydd</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Most of our forms and account documents are bilingual or in the recipient's choice of language</li> </ul>
<b>6 Staff a'r Gweithle</b>		<b>6 Staff and the Workplace</b>
<b>6.1 Asesu Anghenion Sgiliau Iaith wrth Recriwtio</b>		<b>6.1 Assessing Language Skills Requirements when Recruiting</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn ystyried pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd newydd yn ein sefydliad</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We consider what level of Welsh language skills are required to perform all new roles in our organisation</li> </ul>
<b>6.2 Cofnodi a Datblygu Sgiliau Iaith ein Staff</b>		<b>6.2 Recording and Developing our Staff's Language Skills</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn cadw cofnod anffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg rhai aelodau o staff</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We keep an informal record of the Welsh language skills of certain employees</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn rhannu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o staff o fewn y gweithle, er mwyn i ni fedru cyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg at yr unigolyn mwyaf priodol</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We share information about each employee's Welsh language skills within the workplace, so that we can direct Welsh language enquiries to the appropriate person</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn cydnabod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We acknowledge that in Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn cefnogi staff sydd am wella eu sgiliau iaith Gymraeg, ac yn galluogi iddynt dderbyn hyfforddiant yn annibynnol</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We support staff who want to improve their Welsh language skills, and enable them to receive training independently</li> </ul>
<b>6.3 Cyfathrebu Mewnol</b>		<b>6.3 Internal Communication</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o staff a'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr a'r cwsmeriaid</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We recognise that each member of staff and customer has the freedom to use the Welsh with each other, as enshrined in the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and we expect staff to respect the linguistic preferences of their colleagues and customers</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn cefnogi a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will support and facilitate the use of Welsh and English in the workplace</li> </ul>



<b>6.4 Cyhoeddiadau Mewnol</b>		<b>6.4 Internal Publications</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhai o'n cyhoeddiadau mewnol yn ddwyieithog</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Some of our internal publications are bilingual</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will use more Welsh in our internal publications wherever it is reasonable to do so</li> </ul>
<b>6.5 Meddalwedd yn Gymraeg</b>		<b>6.5 Welsh language software</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn caniatáu i staff osod rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer unrhyw feddalwedd y maent yn ei ddefnyddio sydd â rhyngwyneb Cymraeg cydnabyddedig</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We allow our staff to install a Welsh language interface for any software they use which has a recognised Welsh language interface</li> </ul>
<b>6.6 Arweiniad</b>		<b>6.6 Leadership</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will ensure that this policy is supported at the highest level in our organisation</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Fe fyddwn yn penodi un person o'r tîm uwch reoli i fod yn gyfrifol am weithredu, hybu ac adolygu'r polisi hwn Aled Rhys Jones, Prif Weithredwr</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will appoint one member of the Senior management team to be responsible for implementing, championing and reviewing this policy Aled Rhys Jones, Chief Executive</li> </ul>
<b>6.7 Ymwybyddiaeth</b>		<b>6.7 Awareness</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>This policy will be conveniently available for the public to read</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd polisi hwn ar gael yn gyfleus i'n staff ei ddarllen</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>This policy will be conveniently available for our staff to read</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y polisi hwn yn ymddangos ar ein gwefan</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>This policy will appear on our Website</li> </ul>
<b>6.8 Adolygu</b>		<b>6.8 Review</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn pob dwy flynedd</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>We will assess and revise this policy every two years</li> </ul>
<b>7 Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan</b>		<b>7 Services delivered on our behalf</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Lle bo'n briodol, byddwn yn gosod amodau ieithyddol mewn cytundebau trydydd parti</li> </ul>	✓	<ul style="list-style-type: none"> <li>Where appropriate, we will include conditions relating to language use in our third party contracts</li> </ul>